O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2021 Rhif 576 (Cy. 158)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Llanfihangel Crucornau i Bandy, Sir Fynwy) (Terfynau Cyflymder 40 mya a 50 mya) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *12 Mai 2021* |
| *Yn dod i rym* | *17 Mai 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A465, a thrwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 84(1)(a), (2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gwent ac wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol â rheoliadau 5(1) a 6(1) o Reoliadau Gorchmynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990(**2**).

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Llanfihangel Crucornau i Bandy, Sir Fynwy) (Terfynau Cyflymder 40 mya a 50 mya) 2021 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 17 Mai 2021.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

---

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) O.S. 1990/1656, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/802 (Cy. 175).

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**);

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A465 Casnewydd i'r Amwythig;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

## Cyfyngiadau

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

## Dirymu

**5.** Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Llanfihangel Crucornau, Wern Gifford a Phandy, Sir Fynwy) (Terfynau Cyflymder 40 a 50 mya) 2003(**2**) wedi ei ddirymu.

---

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29 o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015.

(**2**) O.S. 2003/349 (Cy. 49).

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 12 Mai 2021

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

## ATODLEN 1
## Terfyn cyflymder 40 mya

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 330 o fetrau i'r de o ganol ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth yn Wern Gifford hyd at bwynt 430 o fetrau i'r gogledd o ganol y gyffordd honno.

## ATODLEN 2
## Terfyn cyflymder 50 mya

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 375 o fetrau i'r de o ganol ei chyffordd ag Old Hereford Road, Llanfihangel Crucornau hyd at bwynt 330 o fetrau i'r de o ganol ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth yn Wern Gifford.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 430 o fetrau i'r gogledd o ganol ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth yn Wern Gifford hyd at bwynt 46 o fetrau i'r gogledd o ganol ei chyffordd â ffordd sirol yr R46 i Benishaplwydd.